

# *YR HEUWR*

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 29
RHAGFYR 2009

Fe fydd y rhai ohonom sydd yn mynd o ddrws i ddrws i gasglu ar gyfer Cymorth Cristnogol, neu elusennau eraill yn ystod y flwyddyn, yn gwybod yn iawn am y gwahanol ymatebion a gawn gan drigolion Aberystwyth a Phenrhyn-coch. Ar y cyfan y mae pobl yn arbennig o hael, yn falch o'ch gweld ac yn barod eu cyfraniadau. Wrth gwrs, mae ambell un yn gwrthod cyfrannu ac yn amharod i ymateb! A dyma ni bellach wedi cyrraedd Tymor yr Adfent pryd y cawn ein hatgoffa bod Duw wedi dod i'n plith i guro ar ddrysau calonnau'r ddynoliaeth ac i ofyn inni eu hagor er mwyn croesawu ei uniganedig fab i'n bywydau. Dyna'n syml yw "Newyddion Da" y Nadolig, sef dyfodiad Duw i'r byd gyda gwahoddiad inni i'w groesawu a'i garu.

Ond y mae'r gwaith o guro ar ddrysau'r ddynoliaeth yn parhau gydol y flwyddyn ac yn 2010 fe fydd yna genhadaeth hynod gyffrous yn digwydd yn Aberystwyth. Rhan o genhadaeth ehangach ar draws siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion fydd y genhadaeth hon ac fe ganolbwyntir ar ardal Aberystwyth a'r cylch o'r 2ail hyd y 10fed o fis Hydref. Cydlynir y genhadaeth gan fudiad o'r enw "Through Faith Missions" (TFM) a'i phwrpas yw ceisio cyflwyno'r efengyl i bobl ein hardal. Da dweud y bydd y mwyafrif o'r eglwysi yn cyd-weithio â TFM gan gynnwys Bethel a Horeb.

Dychmygwch yr olygfa! Rhyw ddau dîm cenhadol yn dod i Aberystwyth a'r cylch gan fynd o ddrws i ddrws, yn mynychu digwyddiadau megis boreau coffi, cyfarfodydd cymdeithasol, gwasanaethau ysgolion, yn ogystal ag ymweld â thafarndai i sôn am Iesu Grist ac i rannu'r newyddion da. Yn syml iawn fe fydd y cenhadon yn llythrennol ac yn ffigurol yn curo ar ddrysau gan wahodd a herio pobl i ddod i adnabod Iesu Grist. Y mae hyn yn sicr yn rhan o waith a chyfrifoldeb pob Cristion ac y mae'n gyfle cyffrous i ni fod yn rhan o'r genhadaeth hon. Daw rhagor o wybodaeth i'ch sylw maes o law ond mae yna groeso i holl aelodau Bethel a Horeb i gymryd rhan drwy gynnal a chefnogi digwyddiadau neu drwy fod yn aelodau o dimau cenhadol.

Yn y cyfamser, wrth baratoi ar gyfer y Nadolig, gadewch inni sicrhau ein bod yn ymateb i wahoddiad taer yr Iesu drwy agor drysau ein calonnau led y pen i'w groesawu. Rwy'n siwr bod nifer ohonoch yn gyfarwydd iawn â'r gân enwog am gapel Soar y Myndd sydd uwchben Tregaron. Yn y gytgan ceir y ddwy linell yma: "Os yw dy ddrws bob dydd ar gau, nid ydyw byth ynghlo." Efallai bod llawer o'n calonnau ninnau wedi bod ar gau yn ystod y flwyddyn ond gobeithio'n wir nad ydynt fyth ynghlo a'u bod yn barod i ymateb i guro y Duw byw ac yn gyfrwng i annog eraill hefyd i agor iddo.

Wele wrth y drws yn curo,
Iesu, tegwch nef a llawr;
clyw ei lais ac agor iddo,
paid ag oedi funud awr;
agor iddo,
mae ei ruddiau fel y wawr.

(Ieuan o Leyn)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!
Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS RHAGFYR 2009**

| **Cyhoeddwr y Mis:**<br>**Richard Wyn Davies** | **Organydd y Mis:**<br>**Mair Evans** | |
|---|---|---|
| 6 Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Gymun Gweinidog | Bwrdd y Cymun : Mervyn a Sue |
| 13 Rhagfyr 10.30yb<br>3.00yp | Oedfa yn y Festri<br>Oedfa yn yr Ysbyty | |
| 20 Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Nadolig Plant ac Ieuenctid | |
| 25 Rhagfyr 7.30yb | Oedfa Gymun Bore Dydd Nadolig | |
| 27 Rhagfyr 10.30yb | Oedfa Diwedd Blwyddyn | |
| 3 Ionawr 10.00yb<br>2.30yp | Oedfa Fedydd ym Methel<br>Oedfa Gymun yn Horeb | Bwrdd y Cymun: Carwen a Rhiannon |

**I'CH DYDDIADUR**

**7 Rhagfyr** : Cinio Cymorth Cristnogol ym Methel. (Eglwysi San Mihangel a'r Santes Fair yn gyfrifol am baratoi). 12.00-1.30yp
**9 Rhagfyr** : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys. Horeb yn gyfrifol am weini am 12.00yp
**13 Rhagfyr** : Côr ABC yn cyflwyno "Dilyn y Seren" yn Eglwys Llanbadarn am 7.30yh. Tocynnau £10; Pensiynwyr £7; Plant £5.
**16 Rhagfyr** : Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel yn y Llyfrgell Genedlaethol am 12.00. Cawn gyfle i ymweld â'r arddangosfa yn y Llyfrgell wedi cinio. Rhowch wybod i'r gweinidog os ydych yn dymuno dod. Croeso i aelodau Horeb.
**17 Rhagfyr** : Plygain traddodiadol yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn am 7.30yh
**18 Rhagfyr** : Oedfa Ysgol Penweddig ym Methel am 10.00
**29 Rhagfyr :** Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30
**27 Ionawr** : Noson Lesotho yn festri Horeb

**LLOFFION**

**Dymuniadau Gorau** i Mrs Glenys Thomas sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad.

**Oedfa Fedydd:** Ar y 3ydd Ionawr 2010 fe fydd Derfel a Manon yn cael eu bedyddio ym Methel. Gobeithio'n fawr y bydd yna gefnogaeth gref i'r oedfa hon.

**Arddangosfa yng Nghanolfan y Celfyddydau am Gaethwasiaeth Heddiw:** "Disposable People : Contemporary Global Slavery". Cofiwch fynd i weld yr arddangosfa bwysig hon. Mae yno tan y 9fed o Ionawr.

**Dymuniadau Nadolig :** Os hoffech anfon cyfarchion Nadolig at ein cyfeillion yn Tunisia a Lesotho, gweler y cyfeiriadau isod:

- Sarah Garnes: ACT(Sarah Garnes), BP 62, 7100 El Kef, Tunisia.

(Cofiwch hefyd fod Sarah yn dathlu ei phen-blwydd ar y 30 Rhagfyr.)

- Reverend Merriam Fotho, Masianokeng L.E.C., PO BOX 6, Mazenod 160 Lesotho.

**Cyfraniadau 2008**: Y mae'r Trysorydd yn awyddus i gau llyfrau'r eglwys yn brydlon ar y Sul olaf ym mis Rhagfyr ac fe fyddai'n gwerthfawrogi pe bai'r aelodau yn medru cwblhau eu cyfraniadau cyn gynted ag y bo modd.

**Fflatiau Bethel** : Fe fydd y fflat ar yr ail lawr ar gael i'w rhentu cyn bo hir. Cysylltwch â'r gweinidog os gwyddoch am rywun sydd â diddordeb.

**Croeso i'r Oedfaon** : Os nad ydych wedi bod mewn oedfa ers tro, beth am droi i fewn atom?
Mae yna groeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddem yn falch o'ch gweld bob amser.